

Is-bwyllgor Nadolig, Cyngor Tref Y Bala

NADOLIG 2020

Ohrwydd nifer o resymau sydd allan o reolaeth y Cyngor cafwyd ardeallt yn hwyr yn y flwyddyn na fydd y goleuadau Nadolig sydd ar goed y dref yn cael eu goleuo eleni. Rhaid felly i'r is-bwyllgor ymchwilio am ffyrdd newydd o oleuo'r dref dros y cyfnod pwysig hwn, gan ofalu ein bod yn cadw at y gyllideb, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn, o £2,000.

Penderfyniad yr is-bwyllgor fyddai i brynnu nifer o oleuadau bychain, eu lapio o amgylch nifer o goed y dref, er mwyn goleuo'r stryd fawr. Ynghyd ar goleuadau, byddai angen nifer fawr o fatris. Ynystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr, prynnwyd yr eitemau hyn am gyfanswm o **£230.90**.

Hefyd, penderfynnwyd prynnu a gosod 4 o goed bychain ger arwyddion "Croeso i'r Bala", eto wedi eu goleuo trwy ddefnyddio batris. Er mwyn dangos cefnogaeth, i fusnesau'r dref, penderfynnwyd gofyn i Siop Kel ddarparu a gosod y coed. Y gost oedd **£131.90**

Talwyd **£300** tuag at adloniant nadoligaidd trwy drefniant gydag Awen Meirion

Ynystod cyfarfod mis Tachwedd or cyngor, daeth yn amlwg, wedi siarad gyda rhai o drigolion y dref, y byddai un goeden Nadolig fawr yn edrych yn dda. Yn anffodus, mae lleoliadau i osod coed mawr yn brin yn y Bala, ond wedi trafodaethgyda Hefin (Capel Hefin) cytunwyd i fynd yn rhanog ag o, i brynnu coeden. Cytunwyd i dalu **£60.00** i'r darparwr (Mr Steve Wood) gyda Hefin yn cyfrannu at weddill y costau.

Yn ogystal ar uchod, darparodd Gyngor Gwynedd ychydig o oleuadau ychwanegol i'r dref.

Er y gwariant uchod, yr ydym dal o fewny gyllideb a gytunwyd.

£230.90

131.90

£300

£60

**Cyfanswm £722.80**